John Bunyan *c.*1628 *(bedyddiwyd)*–1688

Awdur Piwritanaidd

John Bunyan oedd yr hynaf o dri phlentyn Thomas Bunyan, a oedd yn gweithio fel gof pres, a'i ail wraig Margaret. Er bod ei dad yn anllythrennog fe anfonodd ei fab i ysgol i ddysgu darllen ac ysgrifennu. Pan oedd oddeutu un ar bymtheg oed fe ymunodd â'r New Model Army. Bu am gyfnod yn Newport Pagnell, Swydd Buckingham, gyda'r Is-gapten Richard Cokayne a'r Uwch-gapten Robert Bolton. Roedd yr amgylchiadau mor druenus yno fel bod rhai o'r milwyr wedi gwrthryfela. Yn ystod y cyfnod hwn fe ddaeth i gysylltiad ag amrywiol safbwyntiau crefyddol, yn enwedig Presbyteriaeth a Chalfiniaeth.

Wedi iddo adael y fyddin ym 1649 priododd ei wraig gyntaf ac fe gawsant bedwar o blant. Yn y cyfnod hwn bu mewn tryblith ysbrydol. Dechreuodd fynychu eglwys y plwyf yn Elstow a daeth i werthfawrogi pregethau'r gweinidog, Christopher Hall. Ond yr oedd aflonyddwch mawr yn ei galon am gyfnod o naw mlynedd. Teimlai yn aml yn ddiwerth, yn isel ei ysbryd ac yn euog, ac roedd yn methu cysgu. Ym 1655 ymunodd ag eglwys ymneilltuol yn Bedford a dechreuodd bregethu. Daeth ei bererindod ysbrydol i ben tua diwedd 1657 pan lwyddodd i ailystyried rhannau o'r Beibl oedd wedi achosi poendod iddo fel yr adnodau yn y Llythyr at yr Hebreaid, pennod 6, adnodau 10 a 12.

Daeth hefyd i gysylltiad â'r Crynwyr trwy i William Dewsbury ddod i Swydd Bedford yn haf 1654. Cyfarfu George Fox a Chrynwyr eraill yn Beckerings Park i drafod gyda Phrotestaniaid eraill, ac ymunodd John Bunyan â hwy. Esgorodd hyn ar ei lyfr cyntaf, *Some Gospel-Truths Opened* (1656), ac yn ystod y blynyddoedd dilynol cyhoeddodd nifer o lyfrau. Wedi marwolaeth ei wraig gyntaf priododd eto gyda dynes o'r enw Elizabeth.

Fe'i harestiwyd yn Nhachwedd 1660 am bregethu yn Lower Samsell ac fe'i rhybuddiwyd na ddylai wneud hynny. Gwrthododd dderbyn y cyngor ac fe'i carcharwyd hyd y Llys Chwarterol a gynhelid y mis Ionawr dilynol.

Condemniodd Eglwys Loegr fel ffug eglwys ac fe'i carcharwyd am gyfnod o dri mis. Roedd yn parhau i wrthod cydymffurfio a chytuno i roi'r gorau i bregethu ac felly estynnwyd ei gyfnod yn y carchar. Tra oedd yn y carchar yn Bedford treuliodd ei amser yn gwneud careiau esgidiau ac yn barddoni. Cyhoeddwyd rhai o'i weithiau ym 1661 gyda'r teitl *Profitable Meditations*. Unwaith eto bu'r cyfnod hwn yn gyfnod cynhyrchiol iddo o ran cyhoeddiadau; cyhoeddodd ei hunangofiant enwog *Grace Abounding to the Chief of Sinners* (1666).

Ysgrifennodd hefyd *The Pilgrim's Progress,* un o'r llyfrau Saesneg mwyaf poblogaidd erioed. Ysgrifennodd y gwaith hwn fel adlewyrchiad o'i brofiad ef ei hun ac fel arweiniad i eraill yn y ffydd Gristnogol. Tynnodd ar ei brofiadau milwrol ac fel tincer, ac felly portreadir y Cristion fel milwr yn brwydro yn erbyn grymoedd drwg a phererin oedd yn dyfalbarhau ar ei daith. Erbyn hyn mae'r llyfr wedi ei gyfieithu i fwy na 200 o ieithoedd ac yn ystod oes yr awdur cyfieithwyd ef i Iseldireg, Ffrangeg a Chymraeg.

Fe'i penodwyd fel bugail y gynulleidfa ymneilltuol yn Bedford yn Ionawr 1672 ac fe'i rhyddhawyd o'r carchar y mis Mai dilynol. Pregethodd yn gyson yno a bu'n dadlau yn egnïol am faterion Cristnogol fel aelodaeth eglwysig, Swper yr Arglwydd a'r bedydd. Ym 1675 fe'i hesgymunwyd am wrthod ymddangos gerbron Archddiacon; fe'i harestiwyd ac fe'i carcharwyd am gyfnod byr y flwyddyn ddilynol. Cyhoeddodd ddilyniant i *The Pilgrim's Progress* ym 1680 sef *The Life and Death of Mr Badman*. Cyhoeddodd hefyd ail ran i'r *Pilgrim's Progress* ym 1684 lle y rhoddwyd lle blaenllaw i ferched gan gynnwys y cymeriad Christiana. Ysgrifennodd hefyd lyfr llawn damhegion a chwedlau ar gyfer plant sef *A Book for Boys and Girls* (1686). Erbyn diwedd ei oes roedd torfeydd mawr yn mynd i wrando ar Bunyan yn pregethu, yn enwedig yn Llundain. Bu farw yng nghartref cyfaill yn Snow Hill, Llundain, ar 31 Awst 1688 ar ôl twymyn byr a chladdwyd ei gorff yn Bunhill Fields, Finsbury, Llundain.